



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000  
Cwsmeriaid: [Monaoffshorewindproject](#)  
e-bost: [@planninginspectorate.gov.uk](#)

At yr Ymgeisydd  
(Trwy e-bost yn unig)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 21 Mawrth 2024

Annwyl Mr Carter,

## Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 51

### Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona

#### Cyngor yn dilyn penderfyniad i dderbyn y cais i'w archwilio

Ar 21 Mawrth 2024, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y cais ar gyfer y prosiect uchod yn bodloni'r profion o dan adran 55 Deddf Cynllunio 2008. Mae rhestr wirio derbyn yr Arolygiaeth Gynllunio a dogfennau'r cais wedi cael eu cyhoeddi ac maen nhw ar gael ar dudalen y prosiect ar ein gwefan.

Wrth gynnal gwiriadau yn ystod y cam derbyn, mae'r Arolygiaeth wedi gwneud rhai arsylwadau cychwynnol ynglŷn â'r cais. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys cyngor i'r Ymgeisydd a roddir o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â'r arsylwadau cychwynnol hyn. Dylai'r Ymgeisydd roi sylw i'w gynnwys ac ystyried sut gellid cymryd camau priodol i ymateb.

#### Mân wallau a hepgoriadau

Mae mân wallau a hepgoriadau i'w cywiro, fel yr adlewyrchir ym Mluch 30 y rhestr wirio derbyn.

#### Dogfennau / gwybodaeth sydd ar goll

Mae'n ymddangos bod dogfen y cyfeirir ati yn y cais heb ei darparu, sef:

- Adroddiad Dilysu Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (Dogfen C2).

## Cysondeb rhwng ffigurau'r Cynllun Gwaith Alltraeth a'r Datganiad Amgylcheddol

Mae paragraff 12.1 y Llythyr Cais (Dogfen A1) yn datgan bod y fynedfa weithredol arfaethedig i Is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol o fynedfa arfaethedig Is-orsaf Mona o Glascoed Road wedi cael ei hasesu yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), ond nid yw rhan ohoni wedi'i dangos yn holl ffigurau'r EIA ar hyn o bryd. Mae'r Arolygiaeth yn cynghori'r Ymgeisydd i gynnal archwiliad trwyadl o ffigurau'r Datganiad Amgylcheddol (ES) i sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Gwaith Alltraeth (Dogfen B3). Dylid darparu ffigurau ES diwygiedig, ynghyd â rhestr o'r ffigurau a ddiwygiwyd.

## Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft a Memorandwm Esboniadol

Rydym wedi nodi rhai mân anghysondebau croesgyfeirio rhwng y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) (Dogfen C2) a'r Memorandwm Esboniadol (EM) (Dogfen C3). Er enghraifft, mae paragraff 1.5.1.10 yr EM yn cyfeirio at Dablau 2 a 3 o dan Ofyniad 2 (Atodlen 2) y dDCO. Fodd bynnag, nid oes Tabl 3 o dan Ofyniad 2 ac nid yw'r disgrifiad o Dabl 2 yn yr EM yn gyson â chynnwys Tabl 2 yn y dDCO. Dylid diwygio'r EM i egluro'r esboniad o Ofyniad 2 a dylid croesgyfeirio'n drwyadl rhwng y dDCO a'r EM i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau eraill.

Mae'n ymddangos bod Atodlen 1: Gwaith Rhif 9 y dDCO yn cyfeirio'n anghywir at gysylltiad rhwng Rhifau Gwaith 3 a 10; mae'n ymddangos o'r Cynllun Gwaith y dylai gyfeirio at gysylltiad rhwng Rhifau Gwaith 8 a 10. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid egluro hyn.

Mae diwedd paragraff 1.5.1.8 yr EM yn datgan "(gweler paragraff 4.1.65)" ond nid yw'n glir at ba ddogfen y mae hyn yn cyfeirio. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid egluro hyn.

## Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir

Teitl Dogfen J26.15 yw 'Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol' a chaiff ei chyflwyno fel cynllun amlinellol drwyddo draw. Fodd bynnag, mae'r rhestr o ddogfennau sydd i'w hardystio yn Atodlen 15 y dDCO (yn unol ag Erthygl 42) yn cyfeirio at Ddogfen J26.15 fel y 'Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir' a dyma deitl y ddogfen sy'n ymddangos yn y Canllaw i'r Cais (Dogfen A5) hefyd.

Mae Gofyniad 9 y dDCO yn datgan bod rhaid i'r Cod Ymarfer Adeiladu gynnwys, ymhlith pethau eraill, Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir. Gan fod dogfen o'r teitl hwnnw wedi'i rhestru yn Atodlen 15, fe allai'r drafft presennol arwain at ddryswch. Cynghorir yr Ymgeisydd i ystyried yr anghysondeb hwn a gwneud unrhyw ddiwygiadau i ddogfennau'r cais sy'n ofynnol i egluro'r sefyllfa.

## Polisi Cynllunio Cymru 12

Mae'r Llythyr Cais (Dogfen A1, paragraff 9) a'r Datganiad Cynllunio (Dogfen J2, paragraff 1.3.4.63) yn nodi bod Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 11 wedi cael ei ddisodli gan PPW12 ar 7 Chwefror 2024. Nid yw'r cais yn ystyried PPW12, ond mae'r Ymgeisydd yn datgan y bydd nodyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Archwilio (ExA) "ar ddechrau'r Archwiliad" i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn PPW12 sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig.

Er mwyn bod yn y sefyllfa fwyaf cyfredol ar ddechrau'r Archwiliad, cynghorir yr Ymgeisydd i gyflwyno Datganiad Cynllunio wedi'i ddiweddarau ac unrhyw ddogfennau cais eraill y mae angen eu diweddarau yng ngoleuni cyhoeddi PPW12.

### **Copiâu caled o ddogfennau'r cais**

Cynghorir yr Ymgeisydd y gallai'r Awdurdod Archwilio, pan fydd wedi'i benodi, ofyn am fersiynau copi caled o nifer fach o ddogfennau'r cais i'w gynorthwyo i baratoi ar gyfer yr Archwiliad.

Byddai'n ddefnyddiol ac o gymorth i'r broses archwilio pe gallai unrhyw wybodaeth, dogfennau egluro neu ddiwygiadau a wnaed i ddogfennau'r cais gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth cyn gynted â phosibl er mwyn helpu'r rhai a allai elwa o'u cyhoeddi wrth baratoi Sylwadau Perthnasol.

Rhowch sylw gofalus i'r cyngor yn y llythyr hwn a gweithredwch arno'n brydlon. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at archwiliad mwy effeithlon ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r Awdurdod Archwilio a benodir fod y dogfennau'n gyflawn ac yn gywir.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r materion a godwyd yn y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

*Jake Stephens*

Jake Stephens  
**Rheolwr Achos**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.  
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.